# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 31 Ionawr 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Gwasanaethau a Ddarperir gan Lywodraeth Leol

**C1 Richard Edwards:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod gwelliant parhaus yn y gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol? (OAQ15376) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Cydweithiaf yn agos â phawb sydd â diddordeb yn y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol i sefydlu rhaglen wella i Gymru. Bydd honno'n disodli'r drefn Gwerth Gorau, sydd yn orfiwrocrataidd, ac yn darparu fframwaith a fydd yn hwyluso gwaith yr awdurdodau lleol wrth iddynt ddarparu gwasanaethau o safon dda, sy'n gosteffeithiol ac sy'n gwella'n barhaus.

*Atebwyd cwestiynau 2 i 8 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Dirprwyo Pwerau o Gyngor Sir Powys

**C9 Nick Bourne:** Pa sylwadau a gafodd y Gweinidog mewn perthynas â dirprwyo pwerau o Gyngor Sir Powys i'r cynghorau cymuned a thref? (OAQ15330)

**Edwina Hart:** Ni chefais yr un sylw ynglŷn â dirprwyo pwerau o Gyngor Sir Powys i'r cynghorau cymuned a thref.

### Rôl Cynghorau Cymuned

**C10 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cynlluniau i gryfhau rôl y cynghorau cymuned fel rhan bwysig o ddemocratiaeth leol? (OAQ15328)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn comisiynu ymchwil i rôl, swyddogaethau a phosibiliadau cynghorau trefi a chymuned yn y dyfodol, a fydd yn sail i lunio polisi Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol.

### Arian Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

**C11 Val Lloyd:** Pa gynnydd a wneir ar roi arian Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar waith a'i ddarparu i wardiau yn Abertawe? (OAQ15370) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Edwina Hart:** Mae saith cymuned yn Abertawe wedi'u cynnwys yn y rhaglen. Penodwyd cydlynydd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf i'r ardal ac mae swyddogion y Cynulliad wedi cyfarfod i drafod y cynnydd a wnaethpwyd.

Mae arian wedi'i ddyrannu i gefnogi menter gwaith dinasyddion a chymunedol yn Abertawe, menter a gaiff ei rhedeg gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe.

Mae cynllun gweithredu cymunedol wedi ei gyflwyno ar gyfer ward Townhill.

### Dyfodol y Swyddfa Rent

**C12 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol y Swyddfa Rent yng Nghymru? (OAQ15312)

**Edwina Hart:** Cyhoeddais i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ddoe y bydd gwasanaethau'r swyddog rhent yng Nghymru yn cael eu cynnwys yng nghylch gwaith y Cynulliad Cenedlaethol.

### Y Dreth Gyngor

**C13 Alun Cairns:** Pa resymau a fyddai'n dderbyniol i awdurdod lleol godi'r dreth gyngor yn fwy na chyfradd chwyddiant? (OAQ15367)

**Edwina Hart:** Fel rheol, ni ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol ymwneud â lefelau'r dreth gyngor. Mae setliad refeniw llywodraeth leol i 2002-03 yn cynyddu'r grant i bob awdurdod lleol yn sylweddol. Mater i bob awdurdod yw pennu ei gyllideb ar gyfer 2002-03, ac felly lefel y dreth gyngor yn ei ardal. Disgwyliaf i bob awdurdod lleol weithredu'n gyfrifol, gan gydnabod ei fod yn atebol i'w etholwyr lleol am gadw'r ddysgl yn wastad rhwng gwario a chodi trethi lleol.

### Arian Llywodraeth Leol

**C14 Gareth Jones:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gydag aelodau eraill o Gabinet y Cynulliad ynghylch y modd y mae arian llywodraeth leol wedi'i rannu rhwng gwahanol feysydd polisi? (OAQ15338)

**Edwina Hart:** Unwaith eto, ni chafodd setliad 2002-03 ei bridiannu. Awdurdodau lleol fydd yn pennu eu cyllidebau eu hunain. Er hynny, ni fyddant yn eu pennu cyn iddynt gytuno â Llywodraeth y Cynulliad beth fydd y canlyniadau o ran gwasanaethau. Lle bo'r awdurdodau yn cael taliadau drwy grantiau penodol neu arbennig, mae'r maint yn cael ei bennu drwy broses cynllunio cyllid arferol y Cynulliad.

### Mantais i'r Gogledd yn sgîl y Setliad Llywodraeth Leol

**C15 Eleanor Burnham:** Sut bydd y Gogledd yn elwa ar y setliad llywodraeth leol? (OAQ15325)

**Edwina Hart:** Disgwylir i gyfanswm cymorth y Cynulliad i lywodraeth leol yn y Gogledd godi 7.1 y cant. Mae hynny'n golygu cynnydd yn y cyllid o ryw £41.4 miliwn ar draws y chwe chyngor, ar ôl cyfrif effeithiau trosglwyddo cyfrifoldebau, a heb gynnwys yr arian a roddwyd at feichiau gofal cymdeithasol newydd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Ceisiadau Cynllunio

**C7 Alun Cairns:** A yw'n dderbyniol i awdurdod cynllunio dderbyn ceisiadau cynllunio ar gyfer tir sy'n destun ymchwiliad cyhoeddus o ganlyniad i'r broses cynllun datblygu unedol? (OAQ15365)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Rhaid i awdurdod cynllunio lleol ystyried cais cynlluniau a wnaethpwyd yn ddilys, gan anwybyddu cynnydd ei gynllun datblygu unedol. Wrth

benderfynu ar gais cynllunio, mae adran 54(a) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ei gwneud yn ofynnol bod y penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r cynllun, os na fyddai ystyriaethau cynllunio materol yn awgrymu fel arall. Efallai y bydd problemau cynamseredd yn codi os oes cynllun datblygu wrthi'n cael ei baratoi neu ei adolygu, ac os oes cynigion wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ond heb eto eu mabwysiadu. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol i'w benderfynu yw a fyddai'n briodol gwrthod ar sail cynamseredd, er enghraifft lle y byddai'r cynnig yn mennu'n ddifrifol ar ganlyniad y broses gynllunio drwy effeithio ar benderfyniad y dylid ei wneud yng nghyd-destun y cynllun datblygu unedol. Efallai y bydd yr ystyriaeth honno'n dibynnu ar ba gam yn y cynllun yr ydys wedi'i gyrraedd.

### A40

**C8 David Davies:** Pa gynnydd sydd wedi ei wneud ar gyfer tynnu'r dosbarthiad cefnffordd oddi ar yr A40 drwy ganol tref y Fenni? (OAQ15347)

**Sue Essex:** Gwnaethpwyd gwerthusiad rhagbaratoawl o'r llwybr arall, A4143, gyda'r bwriad, o bosibl, o dynnu'r dosbarthiad cefnffordd oddi ar A40 drwy ganol tref y Fenni. Trafodwyd y mater â'r awdurdod lleol a charfanau eraill sydd â diddordeb.

Mae adolygiad o rwydwaith y cefnffyrdd ar y gweill ar hyn o bryd a chwblhawyd ymgynghoriad rhagbaratoawl â phob awdurdod unedol. Cynhelir ymgynghoriadau swyddogol ar hynny yn gynnar yn yr haf.

### Cynllun Prisiau Gostyngol

**C9 Richard Edwards:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ymestyn y cynllun prisiau gostyngol i gynnwys tacsis? (OAQ15364)

**Sue Essex:** Nid yw'n fwriad gennyf ar hyn o bryd estyn y cynllun tocynnau mantais ar gyfer pensiynwyr a phobl anabl ar fysiau lleol, a ddaw'n hawl o Ebrill 2002, i gynnwys ffyrdd eraill o deithio. Mae'n rhaid inni asesu, gyda'r awdurdodau lleol, effaith y cynllun bysiau cyn ystyried estyn y cynllun gorfodol.

### Cysylltiadau Ffyrdd i Gaerdydd o Wrecsam a Gwynedd

**C10 Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella cysylltiadau ffyrdd i'r brifddinas o gyfeiriadau Wrecsam a Gwynedd? (OAQ15292) [W]

**Sue Essex:** Mae rhaglen gefnffyrdd wrthi'n cael ei datblygu yn unol ag egwyddorion a nodwyd yn 'Fframwaith Trafnidiaeth Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001. Yr wyf yn gobeithio cyhoeddi'r rhaglen yn fuan.

### Allyriadau Ymbelydrol

**C11 Elin Jones:** A all y Gweinidog roi sylwadau ar hynt y canllawiau i Asiantaeth yr Amgylchedd ar allyriadau ymbelydrol? (OAQ15290)

**Sue Essex:** Mae canllawiau drafft i Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael eu paratoi ar hyn o bryd ynglŷn ag allyriadau ymbelydrol ac fe gaiff eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyn hir.

### Mwyngloddio Brig

**C12 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fwyngloddio brig? (OAQ15288)

**Sue Essex:** Cyhoeddwyd 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' yn Rhagfyr 2000. Mae'n cynnwys polisïau sy'n ymwneud â mwyngloddio brig. Bydd y nodyn cyngor technegol ar lo, a fydd yn ei ategu, yn cael ei

gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad eleni. Mae gwaith ar y nodyn cyngor technegol drafft wedi cael ei arafu oherwydd y bu blaenoriaethau eraill o ran materion mwynau a gwastraff.

## Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

**C13 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yng Nghymru? (OAQ15304)

**Sue Essex:** Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru, sy'n darparu cymorthdaliadau a chymorth arall i ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yng Nghymru, yn ystyried ar y cyd â swyddogion y Cynulliad, sut y gellid gwella pethau yn y dyfodol agos, ac yn llunio dangosyddion perfformiad newydd i gytuno arnynt. Hefyd, darperir £250,000 y flwyddyn dros dair blynedd o dan gronfa datblygu amgylcheddol y Cynulliad i gynorthwyo prosiectau yn yr ardaloedd hyn sydd â'u gwreiddiau yn y gymuned.

Ceir gwelliannau ymhellach yn rheoli a diogelu'r ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol pan lunnir y cynlluniau rheoli statudol, yn unol â'r gofyn yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae canllawiau yn cael eu paratoi ar y mater hwn a bydd angen i'r cynlluniau fod ar waith erbyn Ebrill 2004.

## Rhwydwaith Rheilffyrdd

**C14 Peter Law:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddatblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd ar draws Cymru? (OAQ15351)

**Sue Essex:** Yn fy natganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 24 Ionawr, rhoddais groeso i gyhoeddiad cynllun strategol yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ac yr wyf yn cydweithio'n agos ag ef i sicrhau y gwelwn welliannau sylweddol dros y degawd nesaf. Bydd gwaith ailagor llinell Bro Morgannwg i deithwyr yn 2003 a gwella llinellau'r Cymoedd a llinell y Cambrian yn cael ei wneud gyda buddsoddiad gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â chan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol.

Yr wyf yn falch bod yr awdurdod yn ymateb yn gadarnhaol i'r achos dros ailagor y llinell i Lyn Ebwy, sy'n dangos nad ar ofynion de-ddwyrain Lloegr yn unig y mae'n gwrando. Dyma enghraifft dda o ddatblygu yn ôl ein polisi cynhwysiant cymdeithasol a fydd yn galluogi pobl i deithio i'r gwaith a byw yn eu cymunedau cysefin.

## Strwythur Rheilffordd Newydd

**C15 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch strwythur newydd Railtrack a'r goblygiadau i Gymru? (OAQ15305)

**Sue Essex:** Mae Prif Weinidog Cymru wedi trafod y sefyllfa â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau. Byddwn yn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu mewn unrhyw newidiadau deddfwriaethol a ddaw, efallai, os caiff sefydliadau'r rheilffyrdd presennol eu hailstrwythuro.